Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Public Health Wales

# Ai'r frech goch ydyw?

## Negeseuon allweddol ar gyfer gofal sylfaenol

**Mae cyfraddau brechiad MMR wedi gostwng yng Nghymru. Brech a thymheredd? Gallai fod yn frech goch. Ynyswch unrhyw un sydd â brech a thymheredd mewn ystafell ochr pan fyddant yn cyrraedd.**

## Y Frech Goch

### Symptomau cychwynnol

Annwyd, peswch, llid yr amrannau, twymyn (2-4 diwrnod cyn i frech ymddangos). Mae'r dwymyn yn cyrraedd uchafbwynt o gwmpas dechrau'r frech.



### Brech

Coch, blotiog, macwlopapwlaidd (ddim yn cosi) sy'n para 3-7 diwrnod. Mae fel arfer yn dechrau y tu ôl i'r clustiau, gan ledaenu i'r wyneb ac yna'r bongorff, a gall fod yn gyffredinol (yn fwy anodd ei gweld ar groen tywyll).





### Smotiau Koplik

Briwiau bach gwyn neu las/gwyn ar fwcosa'r foch (gall ymddangos ar ddechrau'r frech a phara 2-3 diwrnod). Maent yn arwydd annibynadwy o'r frech goch oherwydd gellir eu drysu â briwiau eraill y geg.



### Cyfnod heintus

8 diwrnod (4 diwrnod cyn i'r frech ymddangos tan 4 diwrnod llawn ar ôl hynny).

### Salwch brech eraill tebyg

Brech rosynnaidd, haint parfofeirws, y dwymyn goch – gall nodi'r frech goch yn seiliedig ar nodweddion clinigol yn unig fod yn annibynadwy.

## Os ydych yn amau'r frech goch

**Ynyswch unrhyw un sy'n cyflwyno gyda brech a thwymyn ar unwaith**

### Adolygiad personol

Ar amheuaeth glinigol o'r frech goch, rhybuddiwch staff y dderbynfa. Cyfeiriwch y claf i ystafell ochr pan fydd yn cyrraedd a'i gadw i ffwrdd oddi wrth gleifion eraill.

### Adrodd

Dylai clinigwyr adrodd am achosion a amheuir o'r frech goch i Iechyd Cyhoeddus Cymru ar frys dros y ffôn er mwyn hwyluso asesiad risg prydlon a chamau gweithredu iechyd cyhoeddus. Gall gweithwyr iechyd proffesiynol ffonio **0300 00 300 32** a/neu fynd i **AWARe/Y Tîm Diogelu Iechyd – Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru)**

### Gwiriwch am ffactorau risg y frech goch:

- Unigolyn heb ei frechu neu wedi'i frechu'n rhannol?
- Amlygiad diweddar i frech/salwch?
- Teithio yn ddiweddar i wledydd/ardaloedd lle mae endemig o'r frech goch?
- Galwedigaeth (e.e., gweithiwr gofal iechyd, gweithiwr meithrin)?

### Lleoliadau cymunedol

- Eithriwch o'r meithrin/lleoliadau addysgol/gwaith am 4 diwrnod cyn a 4 diwrnod ar ôl dechrau'r frech.
- Dylent ddychwelyd dim ond ar ôl gwella'n llawn oherwydd risg uchel o haint.

## Brechiad

### Ar gyfer cleifion

- Gwiriwch hanes brechiad y claf.
- Cynigiwch y brechlyn MMR i'r rhai nad ydynt wedi'u hamddiffyn yn llawn (ar ôl gwella'n glinigol).
- Mae angen 2 ddos ar blant: y cyntaf pan fyddant yn 12 mis, yr ail pan fyddant yn 3 oed a 4 mis.
- Nid oes terfyn oedran uwch ar gyfer brechiad MMR.
- Nid yw brechiad MMR cyn 1 oed yn cael ei gydnabod yn y DU.
- Mae pobl a anwyd cyn 1970 yn debygol o fod wedi cael haint naturiol. Cynigiwch y brechlyn MMR ar gais neu os ydynt yn wynebu risg uchel o amlygiad. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y **Green Book Chapter 21: Measles** (safle allanol).

### Ar gyfer staff

- Dylai cyflogwyr sicrhau bod gan yr holl staff imiwnedd naturiol neu eu bod wedi cael 2 ddos llawn o'r brechlyn MMR.
- Gall amlygiad i'r frech goch gan staff heb eu hamddiffyn ei gwneud yn ofynnol eu heithrio o'r gwaith am 21 diwrnod.

Gwybodaeth am MMR i weithwyr iechyd proffesiynol: **icc.gig.cymru/mmr**

Gwybodaeth am MMR i'r cyhoedd: **icc.gig.cymru/brechlynMMR**

Gwybodaeth am MMR mewn fformatau hygyrch: **icc.gig.cymru/brechlynnau/adnoddau-hygyrch**

DS: mae rhai o'r dolenni sydd wedi'u cynnwys yn yr wybodaeth hon yn arwain at gynnwys sydd wedi'i greu gan sefydliadau eraill ac efallai na fydd ar gael yn y Gymraeg.

Fersiwn 1, Ebrill 2024

© 2024 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (gyda chydnabyddiaeth i UKHSA)

ISBN: 978-1-83766-379-8

Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Is it measles?
# Key messages for primary care

**MMR vaccination rates have fallen in Wales. Rash and a temperature? It could be measles. Isolate anyone with a rash and a temperature in a side room on arrival.**

## Measles

### Initial symptoms
Coryza, cough, conjunctivitis, fever (2-4 days before a rash appears). Fever peaks around the onset of the rash.



### Rash
Red, blotchy, maculopapular (not itchy) lasting 3-7 days. Usually starts behind the ears, spreading to the face then the trunk, and can become generalised (more difficult to spot on dark skin).





### Koplik spots
Small white or bluish/white lesions on the buccal mucosa (may appear at rash onset and last for 2-3 days). They are an unreliable marker of measles as they can be confused with other mouth lesions.



### Infectious period
8 days (4 days before the rash appears until 4 full days after).

### Other similar rash illnesses
Roseola, parvovirus infection, scarlet fever – identification of measles based on clinical features alone may be unreliable.

## If you suspect measles

**Isolate anyone presenting with a rash and fever immediately**

### In-person review
On clinical suspicion of measles, alert reception staff. Direct the patient to a side room on arrival and keep them away from other patients.

### Reporting
Clinicians should report suspected cases of measles to Public Health Wales urgently by phone to facilitate prompt risk assessment and public health actions. Health professionals can telephone **0300 00 300 32** and/or visit **AWARe/Health Protection Team – Public Health Wales (nhs.wales)**.

### Check for measles risk factors
- Unvaccinated or partially vaccinated individual?
- Recent exposure to rash/illness?
- Recent travel to measles-endemic countries/areas?
- Occupation (e.g., healthcare worker, nursery worker)?

### Community settings
- Exclude from nursery/educational settings/work for 4 days before and 4 days after rash onset.
- Return only after full recovery due to high infection risk.

## Vaccination

### For patients
- Check the patient's vaccination history.
- Offer the MMR vaccine to those not fully protected (once clinically recovered).
- Children need 2 doses: the first at 12 months, the second at 3 years and 4 months.
- There is no upper age limit for MMR vaccination.
- MMR vaccination before age 1 is not recognised in the UK.
- People born before 1970 are likely to have had natural infection. Offer the MMR vaccine on request or if they are at high risk of exposure. Further information is available in the **Green Book Chapter 21: Measles**.

### For staff
- Employers should ensure all staff have natural immunity or have had a full 2-dose MMR vaccine.
- Exposure to measles by unprotected staff may require a 21-day work exclusion.

MMR information for health professionals: **phw.nhs.wales/mmr**

MMR information for the public: **phw.nhs.wales/MMRvaccine**

MMR information in accessible formats: **phw.nhs.wales/vaccines/accessible-information**

Version 1, April 2024
© 2024 Public Health Wales NHS Trust (with acknowledgement to UKHSA)
ISBN: 978-1-83766-378-1